**Darluniau ar y sgrin:** Golygfeydd o Barc Bedford, gyda'i adfeilion diwydiannol, a choetir. Ceir hefyd luniau o gerflun derw gydag amlinelliad o silwét person, sy'n cynrychioli 'Ceidwad y Gorffennol'.

**Adroddwr:** "Fi yw'r gorffennol, rwyf wedi cadw ei stori yn wir,
Oherwydd fi yw'r Ceidwad ond rwyf wedi cysgu am amser hir.

Edrychwch o'ch cwmpas nawr, wrth i mi ddeffro,
Edrychwch ar fy myd wrth iddo newid
Dyma'r siwrneiau i'w rhannu
O gamau cyntaf i draciau cudd
Yma mae popeth yn gysylltiedig,
Popeth yn un, fi yw'r gorffennol

Einion yn gwrthsefyll newid
Cegin awyr agored, cartref clyd
Syniad sy'n tyfu fesul bricsen,
Nyth titw tomos las ar ben y gangen

Fi yw'r tŷ gwydr sy'n brysur yn tyfu
Hadau aeddfed yn barod i'w hadu
Fi yw'r gwanwyn yn gennin Pedr i gyd
Robin goch yn ei ddillad Sul yn canu i'r byd

Ar ddiwrnod o haf fi yw terfyn y daith
Yn llithro i'r hydref, a'i lwydni llaith
Fi yw'r tawelwch, yr awel yn sibrwd
Peswch y pathew, y coed yn siffrwd

Ôl troed wedi rhewi yn y baw
Cadwyn llygad y dydd, llythrennau ar goeden gerllaw
Adlais yr olwynion ar drac y trên
Cam cyntaf ymlaen, fflach o gynffon glên

Fi yw'r tocyn i bob un sy'n breuddwydio
Siwrnai anturus i bawb sydd am fentro
Fi yw'r oes sydd wedi teithio'n ddireol
Cofiwch fy ngwarchod - fi yw'r gorffennol."

**Testun ar y sgrin:** Ewch am dro i Barc Bedford, Cefn Cribwr, ger Pen-y-bont ar Ogwr, CF32 OBW.

Chwiliwch am: siff-siaff, clychau'r gog, blodau'r gwynt, llwynog.

Ewch i gwrdd â Cheidwad y Gorffennol.